CYNGOR SIR PENFRO

RHYBUDD O ETHOLIAD CYNGHORWR CYMUNED

AR GYFER

CYNGOR TREF PENFRO WARD GOGLEDD ST MARY

CYMWYSTERAU YMGEISYDD

Er mwyn bod yn gymwys i gael ei ethol yn aelod o gyngor cymuned rhaid i'r person fod yn 18 oed neu'n hŷn ar ddydd ei enwebiad a bod yn ddinesydd o'r Gymanwlad, yn ddinesydd o Weriniaeth Iwerddon, neu yn ddinesydd o Aelod-wladwriaeth arall yn y Gymuned Ewropeaidd, a naill ai;-

(i) yn etholwr llywodraeth leol yn y dref, neu
(ii) wedi preswylio fel perchennog neu denant ar ryw dir neu aneddle arall yn y dref yn ystod y cyfan o'r deuddeng mis cyn y dyddiad iddo gael ei enwebu'n ymgeisydd, neu
(iii) a'i brif neu unig weithle yn ystod y deuddeng mis cyn y dyddiad iddo gael ei enwebu'n ymgeisydd wedi bod o fewn ardal y dref, neu
(iv) wedi byw yn y dref neu o fewn 4.8 cilomedrau iddi yn ystod y cyfan o'r deuddeng mis cyn y dyddiad iddo gael ei enwebu'n ymgeisydd.

RHODDIR RHYBUDD TRWY HYN

1. Bod Etholiad i'w gynnal ar gyfer **UN** Cynghorwr Cymuned ar gyfer **CYNGOR TREF PENFRO WARD GOGLEDD ST MARY.**

2. Mae ffurflenni papurau enwebu ar gael o'r **GWASANAETHAU ETHOLIADOL, UNED 23, YSTAD DDIWYDIANNOL THORNTON, ABERDAUGLEDDAU, SA73 2RR neu NEUADD Y SIR, HWLFFORDD, SA61 1TP.**

3. Rhaid cyflwyno papurau enwebu i'r **SWYDDOG CANLYNIADAU, GWASANAETHAU ETHOLIADOL, UNED 23, YSTAD DDIWYDIANNOL THORNTON, ABERDAUGLEDDAU, SA73 2RR** ar unrhyw ddiwrnod ar ôl dyddiad y Rhybudd hwn, ond heb fod yn ddiweddarach na **4.00yh** ar **DDYDD GWENER 14eg o FEDI 2018.**

4. Os bydd pleidleisio, cynhelir yr etholiad ar y **11eg** dydd **o HYDREF 2018**.

5. Mae'n rhaid i geisiadau i gofrestru i bleidleisio gyrraedd y Swyddog Cofrestru Etholiadol erbyn canol nos ar **DYDD MAWRTH 25ain MEDI 2018**. Gellir cyflwyno cofrestriadau ar lein: https://www.gov.uk/cofrestru-i-bleidleisio

6. Rhaid i newidiadau yn y trefniadau presennol ar gyfer pleidleisio drwy'r post gan etholwyr neu eu dirprwyon sydd eisoes â phleidlais bost am gyfnod amhenodol neu benodol, neu geisiadau am bleidleisiau absennol newydd gyrraedd y **SWYDDOG COFRESTRU ETHOLIADOL**, **GWASANAETHAU ETHOLIADOL**, **UNED 23, YSTAD DDIWYDIANNOL THORNTON, ABERDAUGLEDDAU, SA73 2RR** fan bellaf erbyn **5.00yh** ar **DDYDD MERCHER 26ain o FEDI 2018.**

7. Mae'r ceisiadau am bleidleisio trwy ddirprwy yn gorfod cyrraedd y **SWYDDOG COFRESTRU ETHOLIADOL** fan bellaf erbyn **5.00yh** ar **DDYDD MERCHER 3ydd o FEDI 2018.**

IAN WESTLEY
Swyddog Canlyniadau
Neuadd y Sir, Hwlffordd, Sir Benfro, SA61 1TP
(Rhif Ffôn 01437 775714/5)

Dyddiedig y 6ed ddydd o Fedi 2018

Argraffwyd a Chyhoeddwyd gan y Swyddog Canlyniadau, Neuadd y Sir, Hwlffordd, Sir Benfro